| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Tachwedd 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys 2024/25 Chwarter 2 (Atodiad 1) |

# 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys (Atodiad 1) yn darparu gwybodaeth am weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2024/25 hyd yma.

1.2 Mae'r term 'Rheoli Trysorlys' yn cynnwys rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian y Cyngor. Mae tua £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrifon banc y Cyngor bob blwyddyn. Roedd y benthyciad a oedd gan y Cyngor heb ei dalu ar 30 Medi 2024 yn £302.1 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.44% ac roedd gan y Cyngor hefyd £3.0 miliwn mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 4.88%.

# 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ar 27 Hydref 2009 cytunodd y Cyngor y dylai'r gwaith o lywodraethu'r gweithgareddau Rheoli Trysorlys gael ei archwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhan o'r rôl hon yw cael diweddariadau am weithgarwch Rheoli Trysorlys bedair gwaith y flwyddyn.

### 2.2 Swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2.2.1 Bydd y tîm Rheoli Trysorlys yn darparu adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â'r amserlen isod:

| **Pwyllgor** | **Dyddiad** | **Teitl yr Adroddiad** | **Cynnwys yr Adroddiad** |
| --- | --- | --- | --- |
| Llywodraethu ac Archwilio | Ionawr | Diweddariad Rheoli Trysorlys (2024/25 Chwarter 3) | - Amgylchedd Allanol - Risgiau - Gweithgarwch - Rheolyddion - Gweithgarwch yn y Dyfodol |
| Llywodraethu ac Archwilio | Ionawr | Strategaeth Rheoli Trysorlys 2025/26 | - Polisi - Strategaeth - Dangosyddion Darbodus |
| Y Cyngor | Chwefror | Strategaeth Rheoli Trysorlys 2025/26 | Fel uchod |
| Llywodraethu ac Archwilio | Ebrill | Diweddariad Rheoli Trysorlys (2024/25 Chwarter 4) | Fel y Diweddariad Rheoli Trysorlys uchod |
| Llywodraethu ac Archwilio | Gorffennaf | Diweddariad Rheoli Trysorlys (2025/26 Chwarter 1) | Fel y Diweddariad Rheoli Trysorlys uchod |
| Llywodraethu ac Archwilio | Gorffennaf | Adolygiad Rheoli Trysorlys 2024/25 | - Adolygiad o weithgarwch Rheoli Trysorlys yn ystod y flwyddyn flaenorol - Perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cabinet | Medi | Adolygiad Rheoli Trysorlys 2024/25 | Fel uchod |
| Llywodraethu ac Archwilio | Tachwedd | Diweddariad Rheoli Trysorlys (2025/26 Chwarter 2) | Fel y Diweddariad Rheoli Trysorlys uchod |

2.2.2 Mae Rheoli Trysorlys yn faes cymhleth sy'n cymryd amser i'w ddeall yn llwyr ac mae angen diweddariadau rheolaidd. Felly ystyriwyd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn fwy priodol na'r Cyngor i gael y diweddariadau hyn fel y gellir neilltuo'r amser a'r ymrwymiad sy'n ofynnol i'r maes hwn.

2.2.3 Mae'n rhaid i'r Pwyllgor gael lefel benodol o ddealltwriaeth yn y maes hwn a chaiff hyn ei gyflawni drwy ddiweddariadau rheolaidd. Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, Arlingclose Ltd, hefyd yn darparu sesiynau hyfforddi i aelodau, er mwyn ymdrin â'r meysydd hyn yn fwy trylwyr.

2.2.4 Mae rôl y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- Deall y Dangosyddion Darbodus
- Deall effaith benthyca ar sefyllfa refeniw y Cyngor
- Deall y cymhellion ehangach sy'n cael effaith ar weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor
- Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd darbodus mewn perthynas â'i weithgarwch Rheoli Trysorlys

# 3 Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod aelodau'n nodi'r Adroddiad Diweddaru ar Reoli Trysorlys (Atodiad 1) sy'n manylu ar y perfformiad hyd yma yn 2024/25.

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, wedi deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

# 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r Adroddiad Diweddaru ar Reoli'r Trysorlys (Atodiad 1) yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Amgylchedd economaidd allanol
- Risgiau
- Gweithgarwch
- Rheolyddion
- Gweithgarwch yn y dyfodol

# 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn galluogi'r Cyngor i roi adnoddau ychwanegol i wasanaethau eraill y Cyngor.

# 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r Cyngor yn talu llog ar yr hyn mae'n ei fenthyca ac yn cael llog ar ei fuddsoddiadau. Mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys hefyd yn arwain at gostau i'r Cyngor yn nhermau treuliau rheoli dyledion (e.e. amser swyddogion, ffioedd ymgynghoriaeth).

6.3 Mae lleihau cost net gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn galluogi'r Cyngor i fuddsoddi mwy yn ei wasanaethau hanfodol.

# 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Dylai cynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, yn benodol, ystyriaeth briodol i effaith hirdymor penderfyniadau ariannol, gan gynnwys y cyfnod ad-dalu a chostau oes gyfan penderfyniadau buddsoddi cyfalaf, cynigion cyllideb â'u heffaith wedi eu hasesu'n briodol a strategaethau dyled a buddsoddiad hirdymor (Rheoli Trysorlys). Mae egwyddorion pwyll, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd eisoes wedi'u cynnwys o fewn gofynion y Cod Darbodus a dylent fod yn sail i gynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau.

7.2 Yng nghyd-destun Rheoli Trysorlys, mae'r gofynion presennol i asesu ac adrodd ar ganlyniadau ariannol hirdymor penderfyniadau buddsoddi a benthyca, gan ddefnyddio dangosyddion darbodus a chynllunio dyled hirdymor, yn cefnogi nodau cynaliadwyedd y Ddeddf Llesiant.

7.3 Mae’r adroddiad ar yr Asesiad o Effaith ar Les wedi ei gynnwys yn Atodiad 2 sy’n dangos sut mae strategaeth Rheoli Trysorlys effeithlon yn hyrwyddo nodau lles y Ddeddf.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae’r Cyngor wedi ymgynghori â’i ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Rheoli Trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian parod, felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau bod dyledion yn cael eu rheoli’n effeithiol ac yn ddoeth a bod enillion rhesymol ar fuddsoddiadau.

9.2 Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i’r pwyllgor hwn gael yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau Rheoli Trysorlys bedair gwaith y flwyddyn ac i adolygu Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol.

## 10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae Rheoli Trysorlys ynddo’i hun yn risg, ond mae’r Cyngor yn monitro ac yn rheoli’r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amhosibl cael gwared ar y risgiau hyn yn gyfan gwbl. Caiff strategaeth a gweithdrefnau Rheoli Trysorlys y Cyngor eu harchwilio’n flynyddol ac roedd adolygiad diweddaraf Archwilio Mewnol yn gadarnhaol heb unrhyw faterion sylweddol yn codi.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys sy'n penderfynu ar y gofyniad i'r Cyngor baratoi diweddariadau rheolaidd ar reoli’r trysorlys ac adroddiad blynyddol ar weithgareddau’r trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.